17.12.2019

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg **Press Article**

Criw Heno yn edrych nôl ar 2019

Unwaith eto eleni bydd criw Heno yn edrych nôl dros y flwyddyn mewn rhaglen arbennig o **Heno Nos Galan** ar S4C Nos Galan am 10.30 hyd hanner nos.

Yn llawn o sêr y campau, bydd Rhys Patchell, Wyn Jones a Gareth Davies yn hel atgofion am ennill y Gamp Lawn a thaith anhygoel y tîm i Gwpan y Byd yn Siapan. Bydd Malcolm Allen ac Owain Tudur Jones yn olrhain taith Ryan Giggs i gyrraedd Ewro 2020 gyda mwy nag un ochenaid o ryddhad! Roedd hi'n flwyddyn bwysig i nifer o sêr ffilm a theledu ac fe glywn pam fod 2019 wedi bod mor gofiadwy i Ruth Jones, Rhys Ifans, Michael Sheen a Catherine Zeta Jones.

Does dim modd osgoi Brexit na'r etholiad wrth edrych nôl dros flwyddyn mor dymhestlog a bydd Huw Edwards ar y rhaglen i sôn am y profiad o gymryd yr awenau wrth David Dimbleby noson yr etholiad, a Dafydd Iwan methu credu fod ganddo ffans byd eang ar ôl cael ei glywed gan filiynau o bobl yn canu ar gyfres The Crown!

Roedd hi'n flwyddyn brysur i'n cerddorion ni, Carwyn Ellis yn Rio, CF1 yn diddanu miliynau lawer gyda Take That a llwyddiant arbennig i'r ffilm Anorac. Yn y stiwdio bydd criw gwych Sorela a Cabarela yn diddanu gyda chaneuon dychanol yn edrych nôl dros ambell i uchafbwynt ac isafbwynt!

"Dwi wedi bod wrth fy modd yn rhoi'r rhaglen hon at ei gilydd," medd Angharad Mair, cynhyrchydd **Heno Nos Galan**. "Mae'r rhaglen yn ffrwyth blwyddyn o waith mewn gwirionedd wrth i ni feddwl am y straeon diddorol, y gerddoriaeth a'r digwyddiadau sydd yn cwmpasu blwyddyn gyfan mewn awr a hanner! Mae'r rhaglen yn esblygu'n gyson wrth i straeon newydd ddod i'r brig, ac erbyn Nos Galan mae ganddom gyfanwaith o'r doniol a'r difyr sy'n ddarlun o holl gyffro 2019."

Ac oes, mae cystadleuaeth i ennill teledu, ac yn gosod y cwestiwn eleni mae neb llai na Tom Hanks sydd wedi cael bach o help gyda'i Gymraeg wrth Matthew Rhys! Oedd, roedd 2019 yn flwyddyn yn llawn o uchafbwyntiau eto yng Nghymru eleni, a pha ffordd well i ddathlu blwyddyn newydd na hel atgofion gyda gwên a chwmni difyr wrth edrych nôl dros holl gyffro difyr blwyddyn arall gofiadwy.

Heno Nos Galan, Nos Galan S4C 10.30 yr hwyr tan hanner nos gydag ail ddarllediad ar Ionawr y 1af.

Heno Nos Galan
31 Rhagfyr S4C am 10.30
Isdeitlau Saesneg
Ar gael ar Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C

17.12.2019

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Article

S4C's Heno crew look back at 2019

Once again this year S4C's Heno crew will be looking back over the year in a special program of Heno Nos Galan on S4C on New Year's Eve between 10.30 and midnight.

Sporting stars, Rhys Patchell, Wyn Jones and Gareth Davies will be reminiscing about winning the Grand Slam and the team's incredible trip to the World Cup in Japan. Malcolm Allen and Owain Tudur Jones trace Ryan Giggs's journey to Euro 2020 with more than a sigh of relief! And it was also an important year for many film and television stars and we hear why 2019 has been so memorable for Ruth Jones, Rhys Ifans, Michael Sheen and Catherine Zeta Jones.

Brexit and the election are unavoidable as we look back over a turbulent year. Huw Edwards will be on the program to talk about the experience of taking over from David Dimbleby on election night, and Dafydd Iwan can't believe he has a global fanbase after being heard by millions of people singing on Netflix hit The Crown!

It was a busy year for our musicians, Carwyn Ellis in Rio, CF1 entertaining many millions with Take That and a great success for the film Anorac. In the studio the Sorela girls and the Cabarela crew will be performing songs looking back at some highs and lows!

"I have really loved putting this program together," said Angharad Mair, producer of Heno Nos Galan. "The program is really the result of a year of work as we think about the interesting stories, music and events that cover a whole year in an hour and a half! The program is constantly evolving as new stories come to the fore, and by New Year's Eve we have a whole bunch of the funny and entertaining that capture's the excitement of 2019."

And there is also a competition to win a television, with a question from none other than Hollywood star Tom Hanks who has had a little help with his Welsh from Matthew Rhys! Yes, 2019 was a year full of highlights again in Wales this year, and what better way to celebrate the new year than to reminisce with a smile and entertaining company while looking back over all the exciting excitement of another memorable year.

Heno Nos Galan, S4C's New Year's Eve 10.30pm until midnight with a repeat on January 1st.

Heno Nos Galan
31 December S4C at 10.30
English subtitles
Available on Clic, iPlayer and other platforms
A Tinopolis production for S4C